Trefn Gwasanaeth Sul y Pentecost

(dyma awgrym o drefn gwasanaeth fyddai'n cynnwys y deunyddiau i gyd)

1: Gair o groeso
Arweinydd:Croeso i chi i'r gwasanaeth i ddathlu Sul y Pentecost neu'r Sulgwyn, yr adeg honno pan gofiwn am yr Ysbryd Glân yn dod i lawr yn rymus ar ddilynwyr Iesu, a rhoi'r nerth a'r hyder iddyn nhw rannu eu ffydd. Wrth ddechrau ein gwasanaeth, gadewch i ni wahodd yr Ysbryd i weithio yn ein calonnau yn ystod yr amser y byddwn yma gyda'n gilydd:

2:Gweddi Agoriadol (gweler y daflen)

3: ***Arweinydd***:Gadewch i ni gyd-ddweud adnodau o **Salm 103** gyda'n gilydd (gweler y daflen)

4: Emyn 1: CFF 59: Laudate Omnes Gentes (awgrymir canu'r ddwy bennill dair gwaith) neu dewiswch emyn o fawl cyfarwydd.

5: ***Arweinydd***: Gadewch i ni glywed yr hyn ddigwyddodd ar y Pentecost cyntaf pan oedd dilynwyr Iesu wedi dod at ei gilydd yn ddisgwylgar, fel yr oedd Iesu wedi gorchymyn iddyn nhw. **Darlleniad Actau 2: 1- 11** (gweler y daflen)

6: Gellir cael stori i'r plant yma (gweler **Pentecost i'r Plant**)

7: Emyn 2: CFF 400: Iesu yw'r Iôr

8: Anerchiad

9: Emyn 3: CFF 259: Cofiwn am gomisiwn Iesu

10: Gweddïau'r Pentecost

11: Emyn 4: CFF 579 Ti yw'r un sy'n adnewyddu

12: Gweddi o ymrwymiad a'r Fendith (gweler y daflen)